NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

**EITEM RHIF 9 AR YR AGENDA**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2009** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR Y PROSIECT** |
| **PWNC:** | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL – PAPUR SAFBWYNTIAU** |

## 1.00 DIBEN YR ADRODDIAD

1.01 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor ynghylch y safbwyntiau cychwynnol y bydd angen eu hystyried a'u mabwysiadu'n rhan o waith datblygu'r Achos Busnes Amlinellol.

## 2.00 CEFNDIR

2.01 Bydd datblygu'r Achos Busnes Amlinellol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdodau sy'n bartneriaid ddiffinio terfynau cyffredinol y contract (pa elfennau a gaiff eu cynnwys a pha elfennau na chânt eu cynnwys), ac mae'r agweddau penodol wedi'u crynhoi isod.

## 3.00 YSTYRIAETHAU

3.01 O gymryd na ellir cludo gwastraff yn uniongyrchol i unrhyw gyfleuster(au) trin gwastraff gweddilliol, dylai pob awdurdod gasglu gwastraff a'i gludo i leoliad(au) yn eu hardal i'w drosglwyddo i'r cyfleuster(au) trin gwastraff. Agwedd allweddol ar yr Achos Busnes Amlinellol yw diffinio a gaiff y canolfannau derbyn a throsglwyddo hyn eu cynnwys ai peidio yn rhan o'r contract cyffredinol a fydd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu gan y contractwr llwyddiannus, yn ogystal â'r cyfleusterau trin terfynol.

3.02 Bydd y bartneriaeth yn clustnodi ac yn sicrhau safleoedd trin gwastraff. Bydd costau'r safleoedd hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng aelodau'r bartneriaeth a fydd yn sicrhau bod unrhyw safleoedd y maent yn berchen arnynt eisoes ar gael i'r bartneriaeth. Bydd dewisiadau sy'n cynnwys un safle'n unig a mwy nag un safle'n cael eu hystyried yn rhan o waith datblygu'r Achos Busnes Amlinellol.

3.03 Bydd angen i'r Achos Busnes Amlinellol gytuno sut y bydd y contract yn mynd i'r afael â gwastraff masnachol.

3.04 Bydd yr Achos Busnes Amlinellol hefyd yn ystyried sut y bydd achosion o gyflwyno unrhyw gyfleusterau'n hwyrach na'r disgwyl yn cael eu trin, a sut y bydd unrhyw gosbau'n cael eu gorfodi ar y contractwr.

3.05 Mae'r farchnad bresennol yn mynnu bod lleiafswm tunelledd gwarantedig o wastraff yn mynd i bob cyfleuster, a bod uchafswm tunelledd yn cael ei bennu drwy gyfuniad o ffactorau megis gallu'r cyfleuster i drin gwastraff a gallu'r contractwr i wneud trefniadau eraill ar gyfer cael gwared â gwastraff. Bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn ceisio nodi proffiliau tunelledd tebygol ar gyfer pob awdurdod sy'n bartner, ynghyd â'r systemau ar gyfer rheoli achosion o gyflawni mwy na'r disgwyl neu dangyflawni yn erbyn y proffil hwnnw.

**ARGYMHELLION**

4.01 Nodi'r adroddiad.

**5.00 Y GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.01 Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried yn rhan o'r Achos Busnes Amlinellol.

**6.00 YR EFFAITH AR ATAL TLODI**

6.01 Dim

**7.00 YR EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

7.01 Dim

**8.00 YR EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.01 Dim

**9.00 Y GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL**

9.01 Dim

**10.00 Y GWAITH YMGYNGHORI SY'N OFYNNOL**

10.01 Dim

**11.00 Y GWAITH YMGYNGHORI A WNAED**

11.01 Dim

**12.00 ATODIADAU**

12.01 Dim

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**
**DOGFENNAU CEFNDIR**

Swyddog cyswllt: Stephen Penny
Rhif ffôn: (01352) 704914
E-bost: Stephen.penny@flintshire.gov.uk